




Addurn Wal gan Grŵp Gwrth-Apartheid Aberystwyth
Llun: Seirian De'Rome, Amgueddfa Ceredigion, Cymru



Baner Thalia Campbell
Llun: Lydia Cole o gasgliad Conflict Textiles

Y baneri defnyddiol mewn protestiadau

Straeon a phrofiadau menywod drwy'r byd sy'n cael eu hadrodd mewn arddangosfa o faneri protest...

Ers degawdau, mae darlithydd o Chile wedi bod yn casglu baneri protest, sydd wedi cael eu pwytho neu'u brodio, yn ymwneud â hanes pobol a ddiflannodd yn ystod cyfnod llywodraeth orthrymus Augusto Pinochet.

Dechreuodd Roberta Bacic gasglu'r *arpilleras* o Chile yn 1975 ac erbyn heddiw mae'n teithio'r byd yn eu dangos er mwyn rhoi llais i'r rheiny a oedd heb lais. Mae'r darnau yn mynegi dichter a thristwch a galar trwy gyfrwng defnyddiau fel hen sachau tatws.

Bydd y darnau lliwgar yn rhan o arddangosfa, **Lleisiau wedi eu Pwytho**, yng Nghanolfan Gelfyddydau yn Aberystwyth tan ganol mis Mai. Mae hefyd yn cynnwys gweithiau gan bobol (merched yn bennaf) yn erbyn gorthrwm ac anghyfiawnder mewn sawl lle arall yn y byd gan gynnwys Cymru.

Fe barodd cyfnod gormesol yr unben Pinochet rhwng 1973 ac 1990 ac yn ystod y cyfnod dan ei gyfundrefn bu 3,000 o bobol farw neu fynd ar goll.

Roedd Roberta Bacic yn ddarlithydd Athroniaeth yn Universidad Astral de Chile rhwng 1973 a 1981 ac ar ôl i'r Unbennaeth ddod i ben, mi astudiodd ddoethuriaeth mewn Iawnderau

Dynol gan wedyn weithio i'r Gorfforaeth Genedlaethol er Iawndal a Chymodi, olynnydd y Comisiwn Gwirionedd (y *Truth Commission*).

Ers 2008, mae Roberta Bacic wedi cynllunio 120 o arddangosfeydd o'r *arpilleras* dros y byd gan gynnwys un ar yr *arpilleras* yn Belfast o'r enw 'War Torn Children'. Ar ôl yr arddangosfa yn Aberystwyth fe fydd yn mynd â'i chasgliad i Japan.

"Mae'r gwaith i gyd yn deillio o fy nghefndir academiaidd," meddai'r darlithydd, sy'n byw yng ngogledd

Iwerddon ers 2004, "yn ceisio cofnodi straeon pobol gyffredin nad oedd ag unrhyw fodd i'w cofnodi eu hunain."

Ei phrofiad o fyw o dan drefn lem Pinochet yn Chile sy'n gyfrifol am ei chenhadaeth oes i rannu'r trysorau llawr gwlad yma gyda'r byd.

"Mae'n rhan greiddiol o'r ysfaf sy'n fy ngyrru i wrando ar y profiadau yma fel bod menywod eraill hefyd yn cael dweud eu stori," meddai. "Yn hytrach na dweud fy stori fy hun dw i'n hoffi siarad am dynnu allan straeon

menywod cyffredin nad y'n nhw'n cael yr un platfform â mi i siarad."

Straeon am y diflanedig – y rhai a gipiwyd yn ddirybudd - ac ymdrechion ofer a thrallodus eu perthnasau i ddod o hyd iddyn nhw sy'n cael eu hadrodd bennaf yn yr *arpilleras*. Ar un o'r baneri mae llun o'r cwt arteithio a ddefnyddiai Pinochet a'i filwyr.

"Mae bywydau'r teuluoedd am dros ddeugain mlynedd wedi'u llethu gan y profiad yma o chwilio am eu perthnasau coll."



'Na i anghosbedigaeth', arpillera o Chile. Llun: Tony Boyle




'Ar ochr iawn y ffens' gan Antonia Amador o Chile. Llun: Roser Corbera

BANERI O GASGLIAD CONFLICT TEXTILES



'Menywod wedi'u cadwyno i glwydi'r senedd'. Llun: Martin Melaugh



Cimarron gan Martin Melaugh

BANERI PROTEST

Cafodd yr arddangosfa ei threfnu ar y cyd rhwng Roberta Bacic ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Er bod y rhan fwyaf o'r baneri yn rhan o gasgliad Conflict Textiles, mae'r trefnwyr wedi ceisio cyflwyno elfen Gymreig i'r sioe.

Mae baner tapestri a wnaed gan Grŵp Gwrth-Apartheid Aberystwyth yn yr 1980au; ac un gan Thalia ac Ian Campbell o'r Borth, sydd wedi creu cannoedd o faneri yn ystod eu hoes o ymgyrchu dros heddwch, yn ymosod ar yr awyrennau dibeliot, neu'r *drones*.

Yn anffodus, ni lwyddon nhw i ddod o hyd i faneri protest wedi'u pwytho yn ymwneud ag ymgyrchoedd dros hawliau'r Gymraeg - er bod rhywun o'r Adran wedi trafod gydag aelod amlwg o Gymdeithas yr Iaith. Maen nhw felly yn annog unrhyw un sy'n gwybod am deustilau felly i gysylltu â nhw yn y Ganolfan.

Hefyd yn yr arddangosfa mae macynnau poced wedi'u brodio i gofio'r meirw a'r diflanedig sy'n rhan o'r sefyllfa dreisgar ym Mecsico ar hyn o bryd, a phortreadau wedi'u pwytho o gyfnod y brwydro yng ngogledd Iwerddon.

'Iaith a Sgwrs trwy gyfrwng Tecstilau' yw'r pwnc ar gyfer sawl gradd Meistr a Doethuriaeth dan ofal Roberta Bacic ac mae un ymchwilydd yn astudio ei chasgliad ar gyfer Doethuriaeth gan gyhoeddi erthyglau ac adroddiadau ledled y byd.

GRYM I FERCHED

Mae'r darlithydd, Dr Berit Bliesemann de Guevara, o Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn astudio 'Adeiladu Heddwch' ac wedi trefnu'r arddangosfa ar y cyd â Roberta Bacic.

Mae wedi dewis baner gan Thalia ac Ian Campbell o'r Borth yng Ngheredigion o awyren fomio dibeliot, gyda'r geiriau '*this is not a *** game*' i'w ychwanegu at y darnau yn yr arddangosfa. Roedd Thalia Campbell yn ymgyrchydd pybyr ym mhrotestiadau Greenham Common ac mae wedi cyfrannu nifer o'i baneri o'r adeg honno i amgueddfeydd.


"Fyddwch chi ddim yn meddwl y byddai'r elit, neu bwy bynnag y maen nhw'n protestio yn eu herbyn, yn eu hystyried yn bethau peryg iawn," meddai'r Dr Berit de Guevara, "ond mae gan Thalia nifer o straeon am faint o ofn yr oedd yn ei godi ar wleidyddion pan fyddai hi'n protestio gyda'i gweithiau wedi'u pwytho.

"Mae'n edrych yn beth domestig iawn i'w wneud, ond mae'n rhoi llawer o rym i'r merched yma gael codi eu llais."

NON TUDUR

TRAFOD A PHWYTHO

Bydd cerddoriaeth o Chile yn rhan o'r agoriad ar Fawrth 25, a gweithdai, sgysiaau a ffilmiau yn digwydd drwy fis Ebrill a Mai. Bydd y gweithdai yn canolbwyntio ar greu doli *arpillera* a phwytho baner protest, a thrafodaethau yn cael eu cynnal ar 'Weithredaeth Menywod a Gwrthsafiad Crefftio' a 'Chelf a Chrefft fel Archifau Gwybodaeth Wleidyddol'.



'Ffrwydron tir' gan Heidi Drahota



'Menywod yn taro'u potiau' gan Felicia
Llun: Martin Melaugh

**LLEISIAU WEDI'U PWYTHO, ORIEL
1, CANOLFAN Y CELFYDDYDAU,
ABERYSTWYTH, MAWRTH 25 - MAI 13**